

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

16/02/2017

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*). **Ymddiheuriadau:** Eluned Jones, Ivora Jones, Eifion Roberts

1. Wrth estyn croeso i bawb mynegodd y Maer iddi gael pleser o gynrychioli'r Cyngor i groesawu Esgob o Tanzania ar ymweliad a'r Bala. Mae gan y dref gysylltiad dyngarol gyda thref fach Mali ers nifer o flynyddoedd. Cymeradwywyd yn gynnes dymuniad y Maer i wneud cyfraniad o Gronfa'r Maer, ac anfonodd y Cynghorwyr eu cyfarchion at yr Esgob a thrigolion Mali. Dywedodd y Maer ei bod hefyd yn edrych ymlaen at gychwyn Sioe Arddwriaethol Y Bala ar ei newydd wedd.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda ond croesawyd yr Heddlu i'r cyfarfod. Yn y drafodaeth, cydnabuwyd y byddai rhai problemau yn rhwym o godi yn ystod cyfnod uwchraddio'r Stryd Fawr, yn arbennig gyda pharcio, ac anogwyd pawb i fod yn amyneddgar. Adroddwyd fod deunaw o ddarpar-heddweision wedi cychwyn ar hyfforddiant yn Nolgellau, a bydd y rhai llwyddiannus yn cael gwaith ym Meirionnydd. Diolchwyd yn fawr iawn i'r ddau PCSO am eu hadroddiad a'u gwaith yn y Bala a'r cylch.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 5ed 2017.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. Yn codi o'r Cofnodion, darllenwyd llythyr manwl gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn amlinellu'r mesurau gofal a diogelwch i drigolion hŷn a bregus sy'n byw yn y fflatiau gwarchod yng Nghysgod y Coleg.
 - ii. Adroddwyd y bu 36,000 o ymweliadau yn 2016 â gwefan "cynghoraupenllyncouncils", lle gwelir gwefan Cyngor Tref Y Bala.
 - iii. Graffiti mewn mannau ar hyd y dref: adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi cael hyd i offer glanhau graffiti. Gwirfoddolodd i waredu'r graffiti sydd ar hyd y dref. Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cynghorydd am ei gymwynasgarwch.
 - iv. Derbyniwyd ymatebion i ohebiaeth parthed cwrs uniaith Saesneg i gleifion Clefyd y Siwgr: ysgrifennodd yr Aelod Cynulliad ar ran y Cyngor Tref at brif weithredwr Bwrdd Betsi Cadwaladr a llwyddodd i gael addewid y byddid yn trefnu cyrsiau trwy'r Gymraeg ac y byddid yn hyfforddi staff i wneud hyn. Diolchwyd yn gynnes i Dafydd Elis-Thomas am lwyddo i gael ymateb mor gadarn. Ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg gan ddweud eu bod yn cyfathrebu ar y mater. Derbyniwyd ymateb yn ddiweddarach gan Fwrdd Betsi Cadwaladr yn manylu ar yr addewidion a roddwyd i Dafydd Elis Thomas

- v. Rhoddodd y Clerc adroddiad o'r hyfforddiant a fynychodd ar 2/2/17 ar gyllid llywodraeth leol.
 - vi. Ymatebwyd i'r cais am wybodaeth parthed union leoliad Llwybr y Sgotwyr.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a dywedodd y bydd ail-ymgyngoriad ar statws yr ysgol gydol-oes newydd, ond pwysleisiodd na fyddai hyn yn amharu ar y gwaith adeiladu. Derbyniodd sicrwydd fod gosod cyrbau isel rhwng Cysgod y Coleg a'r Stryd Fawr yn rhan o raglen waith Adran y Priffyrdd.

7. **Materion Cynllunio:** Cadarnhawyd ymateb y Cyngor i geisiadau -

- i. **NP5/53/549** Adeiladu estyniad cefn a throsi llawr gwaelod yn uned gwyliau, 16 Craig y fron, Y Bala – anfonwyd sylwadau.
- ii. Cais **NP5/53/555 a 556 a 557** gwelliannau i dai Bro Eryl, Ffordd y Gerddi, Maes y Gerddi - cymeradwyo
- iii. Cais **NP5/53/LB70F** - newidiadau mewnol yn y Llew Gwyn -cymeradwyo
- iv. Cymeradwywyd cais **NP5/53/LB301J** i wneud newidiadau mewnol i lawr isaf Plas yn Dre a drws dianc allanol yn y cefn.
- v. Cymeradwywyd cais **NP5/53/138A** i ymestyn y siop ffrâm dur i greu lle storio yn y cefn, Uned 8, Parc Menter (Siop Celt)

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i -

- i. Cadw amlwyth dros dro, Clwb Rygbi'r Bala
- ii. Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr Plas yn Dre, o fwyty i lety gwyliau
- iii. Gosod cyfarpar rheweiddio, uned storio a ffensiau allanol, drysau newydd ac ail-addurno'r Co-op

8. **Materion Cyllid**

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Rhoddwyd ystyriaeth i faterion Cyfrifwyr y Cyngor Tref a chytunwyd i anfon i fynegi pryder am yr oedi wrth ymateb i ymholiadau HMRC a'r angen i weithredu'n brydlon i gais y Pensions Regulator.
- iii. Derbyniwyd ad-daliad gan Gyngor Gwynedd am waith cynnal ar y Domen - £1680.
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. Swyddfa Archwilio Cymru – Ffi'r Archwilwyr Allanol £244.05
 - b. Un Llais Cymru – tâl Aelodaeth £299
 - c. Canolfan Henblas – rhent £167
 - d. EDF - trydan i'r goleuadau ar goed y Stryd Fawr £49.75
 - e. Cyngor Gwynedd - trwsio, paratoi, cynnau a diffodd y goleuadau Nadolig ar y coed. Dymuniad y Cyngor yw bod trigolion y dref a busnesau'r Stryd Fawr yn sylwi fod cost uchel o £1,440 i gynnal y goleuadau yn flynyddol.
- iv Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gefnogaeth ariannol. Ni chymerodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ran yn y drafodaeth. Cytunwyd i gyfrannu:

Cantref, Plase	£300
Teulu'r Berwyn	£300
Cymdeithas Genweirio (adran y plant)	£250
Eisteddfod Gylch yr Urdd	£100
Clwb Pêl-droed Ieuenctid Y Bala	£500
Ffermwyr Ieuan Meirionnydd	£300
Theatr Bara Caws	£100
Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn	£100

Nodwyd eto'r angen i geisiadau am gymorth ariannol gyrraedd y Clerc erbyn dechrau Chwefror. Dylid nodi fod rheolau Archwilio Ariannol yn mynnu bod mantolen neu ddatganiadau banc diweddar yn cael eu cynnwys gyda phob cais am arian cyhoeddus. Awdurdodwyd y Clerc i arwyddo sieciau yn absenoldeb Mr E Roberts.

9. Gohebiaeth:

i. **Gwynedd:**

Derbyniwyd adroddiad y Clerc ar gynnwys yr Ymgynghoriad ar Newidiadau Materion yn codi o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn.

Derbyniwyd gwybodaeth am ail-wynebu'r Stryd Fawr: nodwyd mai Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am y cynllun, ac er mwyn lleddfu ar broblemau parcio, fe fydd y gwaith hefyd yn digwydd gyda'r nos. Ni lwyddwyd i gael parcio am ddim yn y meysydd parcio yn ystod y cyfnod hwn.

Derbyniwyd gwybodaeth am y wefan DEWIS Cymru; mae'r wybodaeth hefyd yn y Wasg.

ii. **Llywodraeth Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth na fydd y cyfyngiad 30mya yn cael ei ymestyn i gyfeiriad Llanfor, ond fe fydd mwy o farciau 30 ar gefndir coch ar y ffordd. Diolchwyd i Gyngor Cymuned Llandderfel am eu cefnogaeth.

Dangosodd y Clerc sleidiau o'r cyfarfod ar drefniadau etholaethol Cyngor Gwynedd (Cyfarfod yn Nolgellau 14/2/17).

Gofynnwyd i'r Clerc ateb holiadur y Llywodraeth ar eiddo a gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

iii. **Un Llais Cymru:** derbyniwyd Agenda cyfarfod 23/2/17.

iv. **Arall:** Dangoswyd sleidiau a anfonwyd gan drefnwyr Snowdonia Outdoor Festival a chytunwyd i wahodd cynrychiolydd i gyfarfod o'r Cyngor .

Cartrefi Cymunedol Gwynedd: derbyniwyd gwybodaeth am fflat ar osod yng Nghysgod y Coleg.

12. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a chytunwyd i arwyddo Cytundeb 2017-18. Cytunwyd i osod mater cynnal llwybrau ar Agenda MAP y cyfarfod nesaf.

13. **Asedau'r Cyngor** – cytunwyd i roi ystyriaeth i greu portffolio o luniau a map yn dangos lleoliad asedau'r Cyngor ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

14. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref** – nid oedd mater wedi dod i law.